



Ysgolion cynradd

Cwestiynau hunanfyfyrto i gynorthwyo ysgolion cynradd i gynllunio i ddatblygu'r pedwar diben

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi dechrau ystyried sut i ddatblygu mewn disgyblion y medrau, nodweddion a'r doniau sydd wedi'u hamlinellu gan bedwar diben y Cwricwlwm i Gymru. Lle mae hyn yn fwyaf effeithiol, mae athrawon yn cynllunio'n ofalus ar gyfer eu datblygiad dros amser, yn eu hintegreiddio'n dda mewn gwersi, yr amgylchedd dysgu a bywyd ehangach yr ysgol. Fodd bynnag, mewn lleiafrif o ysgolion, mae athrawon yn ymgysylltu â'r pedwar diben ar lefel rhy arwynebol ac nid yw eu defnydd ohonynt yn cael fawr o effaith wirioneddol ar ddatblygu medrau pwysig, fel creadigrwydd a gwydnwch. Yn aml, mae hyn oherwydd bod ysgolion yn rhoi gormod o bwyslais ar ddisgyblion yn myfyrto ar eu cynnydd tuag at y pedwar diben yn hytrach na chynllunio'n benodol ar gyfer eu datblygiad.

Gallai'r ystyriaethau canlynol eich helpu i feddwl am ba mor dda rydych yn gweithio tuag at fynd i'r afael â'r pedwar diben yn eich ysgol chi:

- Pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau rydych yn eu cynllunio i ddatblygu disgyblion fel:
 - dysgwyr uchelgeisiol, galluog?
 - cyfranwyr mentrus, creadigol?
 - dinasyddion egwyddorol, gwybodus?
 - unigolion iach, hyderus?
- Pa mor dda ydych chi'n cydbwysu cynllunio'n weithredol i ddatblygu'r priodoleddau hyn â chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrto ar eu cynnydd tuag atynt?
- I ba raddau ydych chi wedi addasu eich cwricwlwm i fynd i'r afael yn benodol â phob un o'r pedwar diben?
- Pa mor effeithiol mae eich trefniadau hunanwerthuso yn nodi:
 - llwyddiant addysgu o ran mynd i'r afael â'r pedwar diben?
 - i ba raddau y mae disgyblion yn dangos y medrau, nodweddion a'r doniau sy'n cael eu hamlinellu gan y pedwar diben?
- Pa mor effeithiol y mae dysgu proffesiynol, gan gynnwys rhannu arfer yn eich ysgol ac ag ysgolion eraill, yn gynorthwyo'r holl staff i ddatblygu'r pedwar diben ymhlith disgyblion?